

# ABERAERON

## Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mawrth 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## CYNNWYS

### ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH ABERAERON


1. CYFLWYNIAD……3
2 CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH ABERAERON……6
3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU……9
4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG……12
5. CYD-DESTUN FFISEGOL……15
6. DATBLYGIAD HANESYDDOL……17
7. DADANSODDIAD GOFODOL……19
8. CYMERIAD PENSAERNIOL……24
9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG……30
10. CYSYLLTIADAU HANESYDDOL ……33
11. HANESION CUDD……34
12. BIOAMRYWIAETH ……35
13. MATERION—DADANSODDIAD CGCB……40


### CYNLLUN RHEOLI ARDAL GADWRAETH ABERAERON


1. CYFLWYNIAD……2
2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4 …… 2
3. ADOLYGIAD FFINIAU……5
4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS……6
5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL ……9
6. YSTYRIED GORFODI……11
7. CYFLOEDD AR GYFER ADFYWIO ……12
8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI……14
9. ADEILADAU MEWN PERYGL……15
10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL……17
11. COED,TIRWEDD A MANNAU AGORED……19
12. MONITRO AC ADOLYGU ……20

ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU A BLAENORIAETH……22

ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH……25


DRAFT

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.

1.1.2 Many  llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

DRAFT




*Ffigur 1 Golygfa gyffredinol o harbwr Aberaeron a Phen Cei*

1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.

1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

DRAFT

1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.

1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

DRAFFT

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ***gadw neu wella*** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.



***Ffigur 2 Terasau Sioraidd nodweddiadol yn Aberaeron***

1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.

1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.

1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

## 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.

1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.

1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

DRAFT

# 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH ABERAERON

## 2.1 Ffin yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Aberaeron yn 1969 gyda'r ffin sy'n bodoli ar hyn o bryd ac a ddangosir dros y dudalen. Nid oes arfarniad na chynllun rheoli ar gyfer yr ardal cadwraeth.

*Ffigur 3 Ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth*



## 2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Mae Aberaeron yn dref harbwr wedi'i lleoli ar arfordir Ceredigion yng Ngorllewin Cymru, 10 milltir i'r gogledd o Geinewydd ac 16 milltir i'r de o Aberystwyth.

2.2.2 Glanfa ar geg afon Aeron yn unig oedd Aberaeron i gychwyn. Aeth y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne ati i wella'r harbwr rhwng 1807 a 1811 a chreu pentref pysgota bach. Datblygodd ymhellach mewn dull tref gynlluniedig draddodiadol ar hyd strydoedd grid, gan gynnwys adeiladau cynharach o fewn ei ffiniau.

2.2.3 Fe'i lleolir ar geg dyffryn yr afon wrth ymyl yr arfordir gyda bryniau isel i'r gogledd, dwyrain a'r de, sy'n mynd yn uwch yn raddol hyd at fand sy'n rhedeg o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ymhellach i'r canoldir.

2.2.4 I'r gorllewin mae dau draeth Aberaeron. Mae traeth y de yn draeth graean a chraig gyda chyfres o grwynau. Mae traeth y gogledd hefyd yn greigiog yn bennaf gyda grwynau ond gyda darnau o dywod mân a phyllau glan môr pan fo'r môr ar drai.

2.2.5 Mae braslun Dousseau o gyfnod cynnar Aberaeron (isod) yn dangos ei lleoliad topograffigol a'r pentref yn ehangu wrth i'r dref ddechrau datblygu.

DRAFT



***Ffigur 4 Braslun o Aberaeron ar ddechrau'r 19eg ganrif gan Alphonse Dousseau (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)***

### 2.3 Disgrifiad Cryno

2.3.1 Cymeriad cyffredinol Aberaeron yw tref gynlluniedig o gyfnod y Rhaglywiaeth, er na chafodd llawer ohoni ei hadeiladu tan oes Fictoria. Roedd y math hwn o bensaernïaeth yn boblogaidd iawn ar y pryd, gan ddatblygu o chwaeth twristiaid o Loegr a thu hwnt a oedd yn dechrau darganfod Cymru fel cyrchfan twristiaeth tirwedd. Mae adeiladau gwerinol cynharach a phensaernïaeth fwy traddodiadol Fictoraidd ddiweddarach i'w gweld yn y dref, ac wrth gwrs datblygiadau hwyrach yr 20fed ganrif, ond ei phensaernïaeth Sioraidd, ei harbwr deniadol a hygyrch, ei thraethau, a'i graddfa ddomestig gyfforddus sy'n ei gwneud yn unigryw ymysg trefi eraill Gorllewin Cymru.

## 3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

### 3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

### 3.2 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990) fel y'i diwygiwyd gand Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.2.1 Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg' a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Rhaid iddynt hefyd lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd cadwraeth hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella

DRAFT

ardaloedd cadwraeth mewn polisïau cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

3.2.2 Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi diwygio Deddf Cynllunio 1990 mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gofyniad i gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth gyda cheisiadau ar gyfer Cydsyniad Ardal Gadwraeth.

3.2.3 The Cafodd y ddeddf newydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023, a disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym ar ddiwedd 2024. Bydd yn dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol ynghyd mewn un Ddeddf ddwyieithog heb effeithio ar y lefelau presennol o ddiogelwch neu ddyletswyddau.



***Ffigur 5 Lleolir Aberaeron ar geg Afon Aeron***

## 3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.

3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.

3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.

3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr hanesyddol amgylchedd:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru,* a *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig,* ymysg eraill.

3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

## 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd (CDLl2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLl1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.

DRAFT

3.4.2 Yn CDLl1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

## 4. DIFFINIAD O DIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

### 4.1 Crynodeb o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol arbennig

| ARWYDDOCAD TYSTIOLAETHOL | ARWYDDOCAD HANESYDDOL | ARWYDDOCAD ESTHETIG | GWERTHOEDD CYMUNEDOL |
|---|---|---|---|
| UCHEL | UCHEL | UCHEL | UCHEL |

DRAFT

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Nid yw gwerth 'uchel' yn golygu na ellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chrefftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid

dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd; gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.

- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

4.1.2 Mae'r termau 'arwyddocâd' a 'gwerth' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yn y cyd-destun hwn ac mae'r ddau yn cyfrannu at nodi 'diddordeb arbennig' lle.

## 4.2 Tystoliaethol

4.2.1 Mae Aberaeron yn darparu tystiolaeth helaeth o dref Sioraidd gynlluniedig, gan ddefnyddio'r ffasiwn ar gyfer cynllunio tref a'r gofynion lleol yn ymwneud â'r diwydiant morwrol a dymuniadau'r Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne.

4.2.2 Mae manylion pensaernïol Sioraidd, deunyddiau adeiladu, dulliau a chrefftwaith i'w gweld yn helaeth yn Aberaeron ac yn darparu tystiolaeth o offer, technegau a ffasiynau'r oes.

4.2.3 Mae'r ddogfennaeth hanesyddol a'r daliadau archifol yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer ymchwil ac ymchwilio yn y dyfodol.

## 4.3 Hanesyddol

4.3.1 Mae Aberaeron yn dref Sioraidd nodweddiadol ac yn dyst i'r twf a'r ffyniant cynyddol yng Ngorllewin Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

4.3.2 Mae'r dystiolaeth a'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â thwf a dirywiad y diwydiant morwrol ar hyd arfordir gorllewinol Cymru yn nodweddiadol o sefyllfa'r ardal ac yn ychwanegu dyfnder at arwyddocâd y dref.

## 4.4 Esthetig

4.4.1 Mae Aberaeron yn dref hynod ddeniadol yn weledol, yn bennaf oherwydd goroesiad ei hadeiladau hanesyddol a'i nodweddion pensaernïol ynghyd â'i lleoliad ar yr arfordir.

4.4.2 Mae lliw yn rhan eithriadol o bwysig o gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, wedi'i gyfoethogi gan y defnydd da o arddangosfeydd blodau.

4.4.3 Mae mannau agored hanesyddol yn y dref yn rhyddhad o ddwysedd agos datblygiadau adeiladu ac yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n rheolaidd ar gyfer digwyddiadau a chan ymwelwyr a phobl leol.

DRAFT

## 4.5 Gwerthoedd Cymunedol

4.5.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis y llyfrgell, yr eglwys, tafarndai, capeli, siopau, bwytai ac eraill.

4.5.2 Mae'r prif weithgarwch masnachol ac economaidd yn digwydd o fewn ffin yr ardal gadwraeth sy'n golygu bod gan yr ardal werth cymunedol uchel o ran incwm a chyflogaeth.

4.5.3 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn, anfonwyd arolwg cychwynnol at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth, ac a oedd unrhyw broblemau. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r arolwg hwn.

4.5.4 Er mwyn casglu sylwadau cyhoeddus ar y drafft cyntaf o'r arfarniad a'r cynllun rheoli, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus galw heibio yn Aberaeron ym mis Medi 2023. Roedd yr arfarniad a'r cynllun rheoli drafft hefyd ar gael i'w lawrlwytho trwy ddolen we. Daeth deuddeg o bobl i'r sesiwn a chafwyd nifer o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i ddiwygio'r arfarniad. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r materion canlynol, ymysg eraill:

- Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y broses a'r gwaith arfarnu
- Ansicrwydd ynghylch capasiti ac adnoddau ar gyfer gweithredu ar lefel Cyngor Sir a'r angen am waith prosiect pellach
- Pryder ynghylch natur eang yr argymhellion a chapasiti partneriaid
- Pryder ynglŷn ag ystyriaethau amgylcheddol y tu allan i gwmpas y gwaith hwn
- Cais am estyniad bach i'r ffin
- Cefnogaeth ar gyfer arweiniad i ddeiliaid tai a chynllun/iau grant posibl
- Cefnogaeth ar gyfer gwella arwyddion a siopau
- Cefnogaeth ar gyfer prosiect Ffynnon Goch
- Cefnogaeth ar gyfer rhesymoli trafnidiaeth
- Cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant ar adeiladau hanesyddol ar gyfer y rhai nad ydynt yn arbenigwyr treftadaeth
- Cefnogaeth ar gyfer mesurau gorfodi

4.5.5 O brofiad, ystyrir bod y gyfradd ymgysylltu hon yn rhesymol ar gyfer ardal fel Aberaeron. Mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar bod y gymuned leol yn ymfalchïo yn y dref, ei phensaernïaeth a'i hanes, a hoffent iddi gael ei chadw a'i gwella.

DRAFT



*Ffigur 6 Golygfa o Aberaeron a'i chyffiniau yn edrych tua'r gogledd*

## 5. CYD-DESTUN FFISEGOL


### 5.1 Cymeriad Tirwedd

5.1.1 Mae adnodd LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod Aberaeron o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 'Arfordir Ceredigion'. Mae datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn nodi: "Mae'r ardal hon yn cynnwys ardal adeiledig Aberaeron gan gynnwys y dref hanesyddol, tai modern a datblygiadau eraill ar gyrion y dref (sy'n cynnwys swyddfeydd y Cyngor Sir), safleoedd carafanau a chyfleusterau hamdden eraill a'r harbwr. Mae'r ardal hon yn cynnwys nifer o gaeau i'r gogledd-ddwyrain o'r dref ar y gwastadedd arfordirol. Roedd golwg unigryw craidd hanesyddol y dref yn ddatblygiad cynlluniedig yn wreiddiol." Mae asesiadau tirwedd yn gyffredinol iawn ac yn cwmpasu ardal lawer ehangach na'r ardal a ystyrir yn yr arfarniad hwn; serch hynny, y nodweddion tirwedd allweddol a nodir ar gyfer yr ardal hon yw:

- Tirweddau caeau rheolaidd
- Aneddiadau cnewyllol a heb fod yn gnewyllol
- Defnydd adloniadol
- Prosesu/gweithgynhyrchu
- Tirwedd wedi'i dylunio
- Adeiladau ac adeileddau
- Archeoleg ddiwydiannol
- Ôl-ganoloesol (1536+)

DRAFT

***Ffigur 7 Dynodiadau Cymeriad Tirwedd***



# 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Dechreuodd yr anheddiad yn y lleoliad hwn fel glanfa wrth geg afon Aeron. Roedd y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne wedi gwella'r harbwr rhwng 1807 a 1811 a chreu pentref pysgota bach. Aeth ati i annog pobl i gymryd prydlesi adeiladu ger yr harbwr ac yn raddol roedd y dref wedi dechrau tyfu. Gan fod y lle a adwaenir bellach fel Aberaeron yn ei hanfod yn dref gynlluniedig o ddechrau'r 19eg ganrif, nid yw wedi'i nodi ar unrhyw un o'r mapiau hanesyddol tan y cyfnod hwn, ac ar yr adeg hon roedd yn anheddiad bach oedd yn dechrau datblygu. Mae'r map degwm yn rhoi'r ddealltwriaeth orau i ni am ei maint ar y pryd.

6.1.2 Yn 1810, mae Rees, yn ei "Description of Cardiganshire," yn disgrifio 'Aberayron' fel tref "much frequented by small coasting vessels, which convey the corn, and other produce of the district to English markets. The harbour has lately been much improved by erecting of a pier, at the expense of the Rev. Alban Thomas Jones Gwynne, of Tyglyn, who at his own charge obtained an Act of Parliament for this purpose. It has been of great use to the shipping, and there is a prospect of this becoming a considerable harbour. There has also been a market established here, which promises to be a great convenience to this part of the country. Near the town are some remains of an ancient fortress called Castell Cadwgan, thought to have been erected by King Cadwgan, about 1148."


6.1.3 Adeiladwyd y bont gyntaf yn Aberaeron yn 1814, er mae'n rhaid bod ffordd dros yr afon cyn hyn. Yn ystod datblygiad y dref wedi hyn, cafodd cerrig a gloddwyd i fyny'r afon ar gyfer adeiladu tai a cherrig eu tynnu o wely'r afon i lawr yr afon i'w defnyddio fel balast ar gyfer llongau gwag. Cafodd seiliau'r bont eu tanseilio gan yr ymdrechion hyn a chafodd ei dymchwel gan lifogydd yn 1881 ac adeiladwyd pont newydd yn ddiweddarach. Cymharol fyrhoedlog oedd y bont hon hefyd a chafodd un newydd ei hadeiladu yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, a gafodd ei difrodi'n sylweddol a'i hailadeiladu ar ddiwedd yr 20fed ganrif.

6.1.4 Datblygodd Aberaeron fel tref Sioraidd wedi'i chynllunio'n gaeth, a dywedir bod gan John Nash ran yn ei chynllunio amlinellol, ond adeiladwyd y rhan fwyaf o'r tai ar ôl ei farwolaeth, a dywedir mai Edward Haycock, pensaer o Amwythig, oedd y prif gynlluniwr. Datblygwyd y dref nid yn unig gyda'r diwydiant morwrol mewn golwg ond hefyd gyda'r posibilrwydd o dwristiaeth wrth i Ffynnon Goch droi'n atyniad adnabyddus wrth i 'yfed o ffynhonnau' ddod yn ffasiynol.

DRAFFT




*Ffigur 8 Map Degwm o'r 1840au yn dangos dechreuadau'r dref gynlluniedig yn Aberaeron*




*Ffigur 9 Map yr Arolwg Ordnans o 1887*

6.1.5 Yn 1835, adeiladwyd Eglwys y Drindod Sanctaidd wreiddiol yn Aberaeron ar gyfer Cyrnol Gwynne gan Edward Haycock. Ailadeiladwyd yr eglwys yn ddiweddarach yn 1872 yn y dull Gothig cynnar gan Middleton & Goodman o Cheltenham.

6.1.6 Cyrhaeddodd y rheilffordd Aberaeron yn hwyrach na'r rhan fwyaf o lefydd yng Ngorllewin Cymru gydag adeiladu Rheilffordd Ysgafn Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron a Cheinewydd a agorodd yn 1911. Daeth y diwydiant morwrol i ben yn y dref o ganlyniad ond dim ond am 40 mlynedd y bu'n cludo teithwyr, a daeth cludo nwyddau i ben hefyd yn 1965 fel rhan o doriadau Beeching.

## 6.2 Mapiau Hanesyddol

6.2.1 Mae'r map degwm yn dangos dechreuadau'r dref gynlluniedig wedi'i lleoli o amgylch yr harbwr ac iard goed a oedd yn sicr yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu llongau. Gellir gweld bod y system grid o strydoedd eisoes yn datblygu trwy'r amlinelliad o'r lleiniau adeiladu oedd ar gael i'w prydlesu.

6.2.2 Mae map yr Arolwg Ordnans 1887 yn dangos i ba raddau roedd y dref wedi tyfu erbyn y dyddiad hwn gyda'r rhan fwyaf o'r datblygu i'r de a'r dwyrain o'r harbwr a'r sgwâr. Stent y datblygu ar y dyddiad hwn sydd wedi'i ddynodi'n bennaf fel yr ardal gadwraeth bresennol. Canol yr 19eg ganrif oedd anterth y diwydiant adeiladu llongau yn Aberaeron ond bu'n elfen gryf yn y dref dros y ganrif gyfan.

6.2.3 Ychydig iawn o newid a welir ym mapiau Arolwg Ordnans 1904, 1938 a 1948 o fap diwedd yr 19eg ganrif.

6.2.4 Hyd yn oed heddiw, mae craidd Aberaeron yn bodoli fel ag yr oedd ar ddiwedd yr 19eg ganrif. Bu ambell i ddatblygiad yn dyddio o'r 20fed ganrif ar ei chyrion, megis yr ysgol a swyddfeydd y cyngor, tai modern ar Stryd Tyglyn, y tai cyngor o amgylch Ffordd y Gaer Isaf a glan y môr, yr ystad yn Ffynnon Goch, a'r maes carafanau i'r gogledd. Hefyd, dim ond ychydig o estyniadau ac adeiladau o'r 20fed ganrif sydd o fewn y canol hanesyddol a rhai byngalos a thai mwy newydd ar gyrion y dref, megis yn ardal Heol yr Odyn, ond yn gyffredinol mae Aberaeron wedi osgoi lledaeniad ystadau tai modern a datblygiadau mewnlenwi.

# 7. DADANSODDIAD GOFODOL

## 7.1 Ffurf a Chynllun

7.1.1 Mae'r canlynol yn amlinellu nodweddion cynllun tref Aberaeron a'i datblygiad cronolegol.

DRAFT

- The Tyfodd y dref i ddechrau ar ffurf grid i'r gogledd-ddwyrain o afon Aeron a'r harbwr.
- Mae Heol y Farchnad lydan a phrif Ffordd y Gogledd yn ffurfio cyffordd ongl sgwâr y cafod yr holl strydoedd newydd eu gosod yn ei herbyn i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain.
- I'r de o'r afon cafodd ychydig mwy o strydoedd eu gosod ar onglau sgwâr i Ffordd y Gogledd ond wedi eu canoli o amgylch yr eglwys.
- I'r de-ddwyrain, cafodd y gofod rhwng Sgwâr Alban a'r afon ei fewnlenwi â datblygiadau stryd mwy onglog.
- Mae datblygiadau tai ar ffurf terasau yn bennaf, naill ai'n hir neu'n fyr, yn erbyn y palmant. Mae dwysedd uchel o ddatblygu.
- Mae dwy ganolfan ddatblygu – o amgylch yr harbwr ac o amgylch Sgwâr Alban.

7.1.2 Mae topograffeg y dref yn wastad yn bennaf ond wedi'i hamgylchynu gan fryniau isel i'r dwyrain a'r ffiniau deheuol sy'n darparu cefndir gwyrdd dymunol. Mae adeiladu ar y llethrau hyn wedi cael ei gyfyngu gan y system gynllunio sydd wedi golygu bod lleoliad yr ardal gadwraeth wedi cael ei ddiogelu.



***Ffigur 10 Gellir gweld nodweddion Fictoraidd mwy traddodiadol ar y tai a ddatblygodd ar gyrion y dref gynharach***

DRAFT

7.1.3 Heddiw, mae'r dref fwy neu lai wedi'i rhannu'n ddau hanner gan gefnffordd brysur yr A487 sy'n rhan o'r ffordd arfordirol hir ar hyd Bae Ceredigion ac arfordir gorllewinol Cymru, ffordd sy'n hynod boblogaidd gyda phobl leol a thwristiaid.

## 7.2 Ffiniau

7.2.1 Gellir gweld ffin y dref hanesyddol yn glir yn ei phensaernïaeth lle mae'r newid o'r dull Sioraidd ffurfiol i'r dull Fictoraidd traddodiadol neu'n ddiweddarach yn amlwg hyd yn oed i'r rhai anwybodus.

7.2.2 Mae datblygu wedi digwydd y tu allan i ffin y dref hanesyddol yn bennaf ar Stryd y Fro tuag at Lyswen, er bod ychydig o fythynnod a thai gwerinol hynach yn yr ardal hon. I'r de-orllewin o Heol yr Odyn mae stad o dai mwy nodweddiadol o'r 20fed ganrif.

## 7.3 Golygfeydd a Ffyrdd Dynesu

7.3.1 Oherwydd cynllun grid Aberaeron, gyda ffyrdd syth ar y cyfan, mae golygfeydd amrediad canolig mewnol ar hyd y llinellau o derasau ar y rhan fwyaf o strydoedd yn y dref.

7.3.2 Mae gan lawer o'r tai Sioraidd a adeiladwyd ar hyd yr hyn sydd bellach yr A487 olygfeydd tuag at y môr, gyda'r rhai ym Maes yr Hafan (fel yr awgryma'r enw) â golygfeydd hyfryd dros y gerddi cyhoeddus a'r harbwr. Mae datblygiadau diweddarach wedi lleihau'r golygfeydd hyn ar gyfer y tai i'r de o'r ardal hon.

7.3.3 Mae dwysedd datblygu a thopograffeg wastad yn cyfyngu ar olygfeydd o'r ardal gadwraeth o'r rhan fwyaf o leoedd o fewn y dref.

7.3.4 Ceir golygfeydd gwych o ardal yr harbwr mewnol i'r bryniau i'r de a golygfeydd tebyg o'r bryniau i'r gogledd a'r dref i'r gogledd o'r harbwr o Fro yr Hafan.

7.3.5 Mae golygfa linellog ar hyd llinell yr Aeron o'r bont ffordd i'r de-ddwyrain.

7.3.6 Mae golygfeydd o'r ardal o'r tu allan i'r dref hefyd wedi'u cyfyngu oherwydd rhediad graddol y bryniau cyfagos sy'n golygu fel mai anaml y gall rhywun godi'n ddigon uchel i weld y dref gyfan. Mae'r A487 ar y ffordd i Aberystwyth yn troi i ffwrdd i'r gogledd-ddwyrain ac mae'r golygfeydd yn ôl o'r fan hon wedi'u cyfyngu gan lystyfiant ar ochr y ffordd a lleoliad y bryniau.

7.3.7 Mae'r golygfeydd o'r A487 i'r de wedi'u cyfyngu i'r un graddau gan lystyfiant ar ochr y ffordd ond mae llwybr cyhoeddus o'r cilfan sy'n cynnig yr hyn sydd mae'n debyg yr olygfa orau o Aberaeron gyfan.

DRAFT

7.3.8 Mae Aberaeron yn dref glan môr gyda gorffennol morwrol ac ar adeg ei hadeiladu roedd y rhan fwyaf o'i thrigolion wedi buddsoddi'n economaidd yn y diwydiant llongau mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ac, felly, mae'r rhan fwyaf o'i ffocws tuag allan i'r gorllewin a'r môr.

## 7.4 Mannau Agored a Gwyrdd

7.4.1 Cynlluniwyd Aberaeron o amgylch nifer o fannau gwyrdd ac agored amlwg:

- Cae Sgwâr Alban – canolbwynt esiampl wych o sgwâr Sioraidd cynlluniedig gyda'i wrychoedd a'r terasau o'i amgylch sy'n rhoi ymdeimlad o fod yn gaeedig ac agosatrwydd. Mae'r man cyhoeddus agored gwyrdd mawr hwn yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden fel pêl-droed a sioeau a digwyddiadau lleol, ac mae lle chwarae i blant yma.
- Gardd gyhoeddus gyferbyn â Maes yr Hafan – ardal fach ond dymunol sy'n darparu man gwyrdd yn cysylltu â'r bont droed bren dros yr Aeron. Fe'i dangosir ar y mapiau cynharach fel man agored gyda strwythur bach, ond nid yw'n glir ym mha gyfnod y cafodd y gerddi eu cynllunio.
- Mae tai yn edrych dros yr harbwr mewnol (Pwll Cam) ar y ddwy ochr ac mae gan yr harbwr ardaloedd palmantog llydan ar yr ochrau hyn gyda rhai coed hirgyff a lleoedd i eistedd. Mae maes parcio bach prysur yma hefyd a chynhelir digwyddiadau yn y fan hon weithiau.

*Ffigur 11 Gerddi cyhoeddus gyferbyn â Maes yr Hafan*



DRAFT



***Ffigur 12 Cae Sgwâr Alban wedi'i amgylchynu gan derasau Sioraidd***

- Mae'r promenâd ar hyd glan y môr (y mae rhan ohono wedi'i gynnwys yn ffin bresennol yr ardal gadwraeth) yn llwybr llydan palmantog gyda morgloddiau concrid ac yn boblogaidd iawn gyda phobl leol a thwristiaid. Mae'r llwybr cerdded yn ymestyn i'r de-ddwyrain ar hyd Pen Cei wrth ymyl y prif harbwr ac yn ymuno â Phwll Cam.

DRAFFT



***Ffigur 13 Pensaernïaeth ddomestig glasurol Sioraidd nodweddiadol***

- Mae ardal laswelltog werdd ddymunol i'w gweld o flaen Bro yr Hafan gyda llwybr sy'n troi'n raddol o'r gerddi cyhoeddus gyferbyn â Maes yr Hafan ar hyd yr afon a'r harbwr gyda pholion lampau traddodiadol.
- Mae man agored gwyrdd arall i'w weld o fewn ffin yr ardal gadwraeth wrth ymyl yr afon i'r de o'r dref i'r dwyrain o Ffynnon Goch, ac mae'n cynnwys safle'r hen ffynnon.

## 8. CYMERIAD PENSAERNIOL

### 8.1 Traddodiadau Adeiladu

8.1.1 Mae Aberaeron yn dref Sioraidd ar y cyfan gyda phensaernïaeth Glasurol syml drawiadol. Fe'i disgrifiwyd fel 'un o'r enghreifftiau gorau o dreflan gynlluniedig ar raddfa fach yng Nghymru', 'yn drefol urddasol', ac 'unffurfiaeth heb golli unigoliaeth'. Nodweddion allweddol y math hwn o bensaernïaeth yw:

- Defnydd o orchmynion (mae gorchymyn pensaernïol yn disgrifio dull adeiladu. Mewn pensaernïaeth glasurol mae pob gorchymyn yn cael ei adnabod yn ôl ei fesuriadau, proffiliau, a manylion esthetig amrywiol sy'n cyfateb i'r rhai o nodweddion pensaernïol Groegaidd gwreiddiol e.e. Dorig, Ïonig a Chorinthaidd.)
- Mesuriadau
- Cymesuredd
- Ailadrodd elfennau megis ffenestri
- Cyfeiriadau at bensaernïaeth Glasurol

8.1.2 Mae tystiolaeth o'r nodweddion hyn i gyd i'w gweld yn Aberaeron ond mewn dull symlach a choeth ac nid yw'n cynnwys llawer o addurniadau mwy cywrain y dull clasurol Sioraidd. Dywedodd Elisabeth Beazley, pensaer ac awdur, fod y dref wedi datblygu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg trwy ddehongliad dyfal a deallus crefftwyr lleol o'r un math o adeilad a chynllun oedd i'w gweld yng nghylchgronau'r oes, ac ysbrydoliaeth sylfaenydd y dref, sef y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne.

8.1.3 Mae nifer o adeiladau maestrefol Edwardaidd a Fictoraidd yn y dref hefyd a gafodd eu hychwanegu ar y cyrion ac mewn rhai mannau yn cwblhau datblygiadau Sioraidd, megis yn Stryd y Fro, gyferbyn â'r eglwys ac ar hyd Bro yr Hafan.

DRAFT



*Ffigur 14 Terasau Edwardaidd ar hyd ochr ogleddol Maes yr Hafan, gyferbyn â'r eglwys*

8.1.4 Mae'r raddfa adeiladu yn weddol gymedrol gydag eiddo dau neu dri llawr. Mae terasau pen (ac weithiau terasau canol) yn aml wedi'u hamlygu trwy raddfa ychydig yn fwy, nodweddion pensaernïol gwahanol, neu drwy gael eu dwyn ymlaen o'r llinell adeilad arferol.

8.1.5 Mae ychydig o adeiladau hŷn sy'n weddill a adeiladwyd yn y traddodiad gwerinol lleol gyda cherrig rwbel heb eu rendro i'w gweld o hyd yn y dref. Mae rhai o'r adeiladau 'iard gefn' hefyd wedi'u hadeiladu yn y dull hwn, er enghraifft ar hyd Lôn y Castell, sy'n debygol o fod o'r un cyfnod ag adeg adeiladu'r dref gynlluniedig ac o bosibl yn cysylltu â'i gorffennol morwrol – mae rhai wedi'u nodi fel hen stablau ac yn rhan o'r dref gynlluniedig (er enghraifft yng nghefn 16 a 17 Sgwâr Alban).

8.1.6 Mae nifer o ymyriadau modern wedi digwydd yn yr ardaloedd iard gefn hyn megis garejys ac estyniadau cefn modern gyda dyluniad a chymesuredd gwael.

8.1.7 Fel y disgwylir mewn porthladd morwrol sydd a'i bryd ar dwristiaeth, mae nifer o dafarndai / gwestai hanesyddol yn y dref ac nifer o adeiladau a arferai fod yn dafarndai ond sydd wedi eu troi'n eiddo preswyl erbyn hyn.

DRAFT



*Ffigur 15 Mae rhai adeiladau gwerinol cynharach wedi goroesi yn lonydd cefn y dref yn bennaf*

DRAFT

### 8.2 DEUNYDDIAU A MANYLION

8.2.1 Mae'r mwyafrif o'r eiddo yn yr ardal gadwraeth wedi'u rendro (llyfn, plastr garw neu sgrifellog) ac wedi'u paentio mewn amrywiaeth o liwiau. Mae'n debyg bod yr eiddo Sioraidd wedi'u hadeiladu o gerrig, tra bod yr eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd diweddarach yn fwy tebygol o fod yn dai brics. Mae eiddo gwerinol a chynharach yn llai tebygol o gael eu rendro. Mae nodweddion pensaernïol megis ffenestri, conglfeini a drysau mewn lliw cyferbyniol gan mwyaf ac mae effaith hyn yn cyfrannu'n fawr at gymeriad cyffredinol yr ardal.

8.2.2 Ar y cyfan mae'r toeon ar oleddf isel gyda llechi naturiol (traddodiadol Cymreig) a bondo llydan a thalcennog ar ddiwedd terasau. Maent yn tueddu i fod yn llinellog ar hyd terasau gyda thoeon uwch ar y pennau. Mae simneiau yn aml yn fawr ac mewn mannau amlwg. Mae gan yr eiddo Fictoraidd mwy traddodiadol estyll tywydd addurniadol ar y talcenigau blaen yn aml a therfyniadau addurniadol a theils crib weithiau.

8.2.3 Y prif fath o ffenestr yw'r ffenestr godi Sioraidd draddodiadol gyda chyfluniadau amrywiol o gwareli ffenestri. Mae gan y ffenestri hyn architrafau wedi'u rendro o wahanol ffurfiau ynghyd â meini clo yn aml, ac mae mowldin cwfl gan rai ohonynt. Mae eiddo Fictoraidd yn tueddu i gynnwys ffenestri bae eto gyda ffenestri codi traddodiadol. Mae rhai adeiladau, yn enwedig y

rhai nad ydynt wedi'u rhestru, megis yn Stryd Tyglyn a Ffordd y Gaer, wedi colli eu ffenestri traddodiadol er anfantais i'w cymeriad cyffredinol.

8.2.4 Mae drysau yn nodwedd allweddol arall, chwe phanel yn gyffredinol ac wedi'u gosod ychydig yn ôl o fewn y ffasâd yn aml ac amrywiaeth o fframiau drysau addurnedig a ffenestri linter ar rai o'r eiddo. Yn anffodus, mae rhai drysau modern newydd gyda dyluniadau amhriodol i'w gweld.

8.2.5 Mae'r eiddo Sioraidd yn gymesur ar eu drychiadau blaen gyda ffenestri a drysau â mesuriadau caeth yn y dull clasurol traddodiadol.

8.2.6 Mae placiau enwau tai gwreiddiol a stepiau cerrig i'r drws ffrynt wedi goroesi mewn rhai mannau.

8.2.7 Mae rhai blaenau siopau hanesyddol da i'w gweld o hyd yn y dref ond mae ffenestri siop modern ac arwyddion hysbysebu a chrog ffasgia gwael yn un o'r ychydig nodweddion sy'n amharu ar yr ardal gadwraeth. Mae adlenni siop yn nodwedd gyffredin ond gyda graddau amrywiol o lwyddiant o ran eu dyluniad.

DRAFT



***Ffigur 16 Nodweddion clasurol Sioraidd traddodiadol: mesuriadau cyfartal a nodweddion wedi'u gosod yn rheolaidd ac yn gymesur, ffenestri codi symudol cwareli bach, architraf gyda meini clo o amgylch y ffenestri a'r drws, conglfeini, cyfeiriadau clasurol yn y ffrâm drws, ffenestr linter bwaog uwchben y drws, drws solet chwe phanel wedi'i osod uwchben lefel y palmant gyda stepiau drws, simneiau crib dwfn isel ar ddiwedd pob teras, to llechi naturiol ar ongl isel.***









***Ffigurau 17, 18 ac 19 Mowldin cwfl gyda maen clo addurnol, plac enw tŷ gwreiddiol, a drws chwe panel gyda ffenestr linter, stepiau drws cerrig gwreiddiol a ffrâm drws clasurol***

8.2.8 Mae adeiladau dinesig a chrefyddol allweddol o fewn yr ardal gadwraeth megis Neuadd y Sir (y Dref), Capel y Methodistiaid a Chapel yr Annibynwyr yn dangos hierarchaeth bensaernïol yn y dull clasurol trwy gynnwys manylion nodweddiadol nas gwelir ar adeiladau eraill megis: bod ar wahân; wedi'u gosod yn ôl o'r llinell adeiladu; ffenestri Romanésg; haen lorweddol; talcenni croes; mesuriadau ffenestri mawr ac ati. Yn ddiddorol, cafodd eglwys y plwyf, y Drindod Sanctaidd, er iddi gael ei hadeiladu'n wreiddiol yn ystod y cyfnod Sioraidd hwyr (1835) ei hailadeiladu yn 1872 yn y dull Gothig cynnar ac yn gwbl groes i weddill pensaernïaeth y dref.

DRAFT




***Ffigur 20 Mae dyluniad traddodiadol yr adlen siop hon wedi'i amharu ychydig gan yr hysbysebu bywiog***



*Ffigur 21 Palmentydd coblog traddodiadol*



*Ffigur 22 Cerflun o'r Cob Cymreig yn Sgwâr Alban*

## 8.3 Ffiniau a Dodrefn Stryd

8.3.1 Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo yng nghanol y dref yn agor yn uniongyrchol i'r palmant ac felly nid oes llawer o angen neu le ar gyfer terfynau blaen, er wrth symud ychydig allan o'r dref mae gan rai eiddo erddi blaen a rheiliau haearn. Mae waliau terfyn cerrig uchel yn gyffredin yn y lonydd cefn sy'n nodi ffiniau eiddo gyda waliau cerrig is ar hyd rhai rhannau o'r ffyrdd, yn enwedig lle mae adeiladau wedi'u gosod yn ôl neu lle mae man agored. Bu rhywfaint o newidiadau tameidiog i driniaethau terfyn traddodiadol sydd wedi defnyddio deunyddiau neu ddyluniadau modern amhriodol.

DRAFT






*Ffigurau 23 a 24 Mae arddangosfeydd blodau yn ychwanegu at gymeriad lliwgar y dref*

8.3.2 Mae amrywiaeth eang o ddodrefn stryd traddodiadol mewn naill ai du neu las, gan gynnwys meinciau a seddi, biniau sbwriel, goleuadau, hysbysfyrddau, bolardiau ac ati. Dim ond y goleuadau ar hyd y ffordd fawr sydd i'w gweld ychydig allan o gyd-destun.

8.3.3 Mae ardaloedd coblog patrymog traddodiadol wedi goroesi mewn sawl man yn y dref ac mae palmentydd eraill wedi'u palmantu'n draddodiadol er gyda slabiau concrit, ond mae'r cynllun lledu palmentydd diweddar yn Heol y Farchnad wedi ychwanegu darnau mawr o darmac hyll.

8.3.4 Mae arddangosfeydd blodau i'w gweld yn gyson o gwmpas y dref sy'n creu mwy fyth o liw ac awyrgylch siriol.

8.3.5 Yng nghornel de-ddwyreiniol Cae Sgwâr Alban mae cofeb o Gob Cymreig sy'n atgof o'r defnydd hanesyddol (a diweddar) o'r cae ar gyfer Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig flynyddol Aberaeron (er nad yw wedi'i chynnal ers y cyfnod cyn-Covid).

## 9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

### 9.1 Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig

9.1.1 Nid oes unrhyw henebion cofrestredig yn yr ardal gadwraeth.

9.1.2 Mae 234 o adeiladau rhestredig, 19 Gradd II* a 215 Gradd II. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau Sioraidd gwreiddiol yn rhestredig. Mae problemau wedi codi gyda'r rhai nad ydynt yn rhestredig megis colli manylion pensaernïol gwreiddiol.

### 9.2 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

9.2.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb lleol – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest), a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

9.2.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfraniad y gymuned. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau ar gyfer eu diogelu a'u gwella trwy bolisïau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.


9.2.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn adeiladau traddodiadol yn aml gyda gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nid oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylai adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gael eu hystyried mewn ffordd negyddol gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu adeiledd neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeiladu traddodiadol wedi cael eu colli neu fod eu dilysrwydd wedi'i gyfaddawdu'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o safon wael.

DRAFFT

9.2.4 Ychydig y tu allan i ganol y dref, megis yn Stryd Tyglyn ac ar hyd Heol y Dŵr, ceir rhai adeiladau heb fod yn rhestredig sydd o'r un dull Sioraidd nodweddiadol ac sydd wedi cadw'r rhan fwyaf o'u manylion pensaernïol gwreiddiol. Dylid ystyried cynnwys y rhain ar 'restr leol'.

DRAFFT

***Ffigur 25 Map o'r Adeiladau Rhestredig yn Aberaeron***



### 9.3 Asedau dynodedig eraill

9.3.1 Ychydig y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth ac o fewn ei lleoliad ceir nifer o adeileddau rhestredig sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y lleoliad a'r ddealltwriaeth hanesyddol o'r ardal. Dangosir y rhain ar y map blaenorol:

- Tŷ Pwyso (Cyf. Cadw: 9978) – Ar ynys ar gyffordd Ffordd y Traeth, Lôn yr Hafan a Heol yr Odyn, yn agos at yr hen odynau calch a'r harbwr.
- Cei'r Gogledd-orllewin i Fasn yr Harbwr (Cyf. Cadw: 9980) – pier cynllun-L a chei cysylltiedig wrth geg harbwr afon Aeron.
- Pier y De-orllewin i Fasn yr Harbwr (Cyf. Cadw: 9979) – pier cynllun-L a chei cysylltiedig wrth geg harbwr afon Aeron.

## 10. CYSYLLTIADAU HANESYDDOL

### 10.1 Pobl

10.1.1 Ficer gwlad oedd y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne a etifeddodd ddwy stad a chryn ffortiwn. Buddsoddodd ei gyfoeth newydd yn natblygiad Aberaeron.

10.1.2 Mae gan nifer o benseiri hanesyddol amlwg gysylltiadau ag Aberaeron: John Nash; Edward Haycock o Amwythig, a Middleton & Goodman o Cheltenham.

### 10.2 Traddodiadau

10.2.1 Mae Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig flynyddol Aberaeron yn ddigwyddiad hanesyddol ac wedi cael ei grybwyll uchod.

10.2.2 Mae'r harbwr mewnol a'r maes parcio wedi cynnal ffair flynyddol ar 13 Tachwedd ers dechrau'r 19eg.

10.2.3 Mae'r gystadleuaeth tynnu rhaff flynyddol ar draws yr harbwr yn achlysur cofiadwy ac mae cystadleuaeth tynnu rhaff wedi cael ei chynnal yn flynyddol yn y dref ers o leiaf diwedd y 19eg ganrif, er nad yw wedi digwydd ar draws yr harbwr bob amser.

### 10.3 Stampiau, Gondola a Ffynhonnau

10.3.1 Ers 1970 mae Milford House wedi cael ei adnabod yn lleol fel y Stamp House pan ymddangosodd ar gyfres o stampiau yn arddangos pensaernïaeth wledig Prydain.


10.3.2 Adeiladwyd gondola Aberaeron yn 1881. Sefydlwyd y ddyfais hon yn wreiddiol er mwyn i'r Capten John Evans gysylltu ei gartref i'w felin lifio bren ar y lan gyferbyn ar ôl i lifogydd mawr ddifrodi pont isaf y dref. Roedd yn cynnwys car neu gerbyd agored oedd yn hongian dros yr

DRAFT

afon ar gebl ac yn cael ei bweru gan gynorthwyydd yn defnyddio winsh llaw. Datblygodd y rhyfeddod hwn yn gyflym i fod yn atyniad twristiaeth, ac erbyn 1882 roedd Capten Evans yn agor ei "gar tram" i'r cyhoedd ar ddiwrnodau ffair. Daeth yn boblogaidd iawn a chafodd ei adnabod fel y "carriage bach". Erbyn 1885 roedd y tafarnwr a masnachwr glo Evan Loyn wedi gosod ei fersiwn ei hun o'r reid. Enw'r gondola hwn oedd yr "Aeron Express", ac erbyn haf 1901 roedd y reid wedi cludo tua 12,500 o deithwyr oedd yn talu i'w ddefnyddio. Bu'r reid yn gweithredu tan y 1930au cynnar. Roedd atgynhyrchiad ohono wedi croesi'r afon am nifer o flynyddoedd ar ddiwedd y 1980au ac yna cafodd ei gau am resymau iechyd a diogelwch.

10.3.3 Mae Ffynnon Goch wedi'i lleoli oddi ar Stryd Ffynnon Goch. Dywedir bod iddi rinweddau iachaol oherwydd yr haearn yn y dŵr, ac fe'i gelwir yn 'ffynnon goch' neu 'red well'. Mae'r safle wedi'i gofnodi ar fapiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans (1890 a 1905). Erbyn hyn mae wedi'i orchuddio ag adeilad cerrig crwn gyda tho llechi conigol. Yn anffodus, mae hefyd wedi troi'n safle ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae graffiti i'w weld y tu mewn iddi.



DRAFT

*Ffigur 26 Stamp Milford House*

*Ffigur 27 Gondola yr 'Aeron Express'*

## 11. HANESYDDION CUDD

### 11.1 Posibiliadau Archeolegol

11.1.1 Ceir dau ddarganfyddiad cyn-ganoloesol o Aberaeron, bwyell o'r Oes Efydd a fflint Neolithig. Gan na chafwyd unrhyw ddarganfyddiadau eraill o'r natur hon mae'n annhebygol y bu llawer o weithgarwch cyn-hanesyddol yn yr ardal hon, er ei fod yn parhau'n bosibilrwydd.

11.1.2 Credir bod y tir y datblygwyd Aberaeron arno yn dir comin canoloesol yn rhannol o leiaf. Nid yw unrhyw adeiladau canoloesol wedi cael eu nodi yn yr ardal ac mae'n annhebygol bod llawer o bosibiliadau archeolegol o ddod o hyd i unrhyw weddillion o'r cyfnod hwn.

11.1.3 Mae'n bosibl bod y diwydiant sy'n gysylltiedig â datblygiad y dref a'i hanes morwrol wedi gadael rhai olion o dan y ddaear sydd wedi'u gorchuddio gan ddatblygiadau diweddarach.

Mae rhai o'r adeiladau diwydiannol cynnar y gwyddys eu bod wedi bodoli i'r de o Heol y Dŵr wedi goroesi – mae'r hen felin wlân a'r efail yn adeiladau rhestredig. Yr efail oedd y man lle gwnaed yr enwog 'rhaw Aberaeron' am y tro cyntaf. Gwyddys hefyd fod tanerdy, gweithdy turniwr coed a saer olwynion yn yr ardal hon.

## 12. BIOAMRYWIAETH

### 12.1 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

12.1.1 Mae ACA Bae Ceredigion yn gorchuddio'r arfordir ac ardal sy'n ymestyn allan i'r môr o Fae Ceibwr yn Sir Benfro i Aber-arth, ychydig i'r gogledd o Aberaeron. Mae wedi'i dynodi oherwydd bod ganddi fywyd morol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae wedi'i dynodi ar sail saith nodwedd cadwraeth:


- Dolffin trwynbwl (Tursiops truncatus)
- Morlo llwyd (Halichoerus grypws)
- Lamprai'r môr (Petromyzon marinws)
- Lamprai'r afon (Llanbedr Pont Steffan fluviatilis)
- Riffiau
- Banciau tywod (wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr môr bob amser)
- Ogofâu môr (boddedig neu'n rhannol foddedig)

### 12.2 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

12.2.1 Mae'r arfordir ar hyd yr ardal hon hefyd wedi'i ddynodi'n SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan am resymau daearegol, geomorffolegol a biolegol. Mae'r dolffin trwynbwl a'r morlo llwyd o ddiddordeb arbennig. Mae traethau diarffordd ac ogofâu môr yn darparu mannau geni ar gyfer morloi llwyd. Mae'r draethlin, sy'n cynnwys riffiau, pyllau glan môr, clogfeini, cobl agored, graean a thywod yn cynnal ystod o gymunedau rhynglanwol pwysig, gan gynnwys enghreifftiau gwych o riffiau llyngyr diliau. Mae'r cramenogion *Pectenogammarus planicrurus*, sy'n brin yn genedlaethol ac sy'n nodweddiadol o lannau graean glân, i'w gweld yma. Mae'r clogwyni môr yn darparu clwydi a safleoedd nythu ar gyfer poblogaethau cenedlaethol o'r frân goesgoch, y wylan goesddu a'r wylan gefnddu leiaf. Mae cynefinoedd o ddiddordeb arbennig sy'n gysylltiedig â'r clogwyni a'r llethrau arfordirol yn cynnwys llystyfiant holltau a silffoedd clogwyni, glaswelltir glan môr a rhostir arfordirol sy'n cynnal nifer fawr o rywogaethau o blanhigion sy'n brin yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys lafant y môr, gromil cyffredin a chlust y gath. Mae'r glöyn byw brith perlog prin a'r glas bychan, sy'n brin yn rhanbarthol, yn rhan o gymuned bwysig o infertebratau.

DRAFT

***Ffigur 28 Map yn dangos ffiniau'r SoDdGA a'r ACA***



## 12.3 Coed

12.3.1 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar orchudd coed trefol. Mae'n dangos bod coed unigol ar y cyfan o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhan fwyaf ohonynt mewn gerddi pobl. Mae ychydig o grwpiau bach o goed i'r dwyrain o Heol y Tywysog er, unwaith eto, mae'r rhain mewn gerddi pobl yn bennaf ac ychydig o grwpiau bach o goed yn yr ardal o gwmpas Eglwys y Drindod Sanctaidd.

12.3.2 Mae'r llethr coediog i'r de-ddwyrain o Danrallt ar ochr fwyaf deheuol yr ardal gadwraeth yn darparu cefndir gwyrdd pwysig i'r bensaernïaeth ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei lleoliad.



*Ffigur 29 Mae llethrau coediog yn darparu lleoliad gwyrdd ar gyfer Tanrallt*

***Ffigur 30 MapDataCymru (data 2018) yn dangos gorchudd coed trefol yn Aberaeron***



***Ffigur 31 Map o Orchmynion Cadw Coed a Choetir Hynafol yn Aberaeron***



## 13. MATERION — DADANSODDIAD CGCB

| CRYFDER | GWENDIDAU |
|---|---|
| Tref Sioraidd gynlluniedig o ansawdd rhagorol<br>Dodrefn stryd a phafinau ag ôl meddwl da ar y cyfan<br>Tref hardd – adeiladau, pafinau, lliw a blodau<br>Cymuned weithgar<br>Wedi'i dylunio'n hanesyddol, mannau agored wedi eu hintegreiddio sy'n cael eu defnyddio'n gyson<br>Cyrchfan dwristiaeth boblogaidd<br>Ddim llawer o adeiladau 'problemus' neu wag<br>Bioamrywiaeth yr arfordir | Colli dilysrwydd pensaernïol adeiladau nad ydynt yn rhestredig<br>Prif ffordd brysur yn rhannu'r ardal<br>Dyluniad gwael rhai adeileddau modern o'r 20fed ganrif – erydiad cronnol o gymeriad y dref<br>Llawer o flaenau siopau o ansawdd gwael<br>Ffasgia ac arwyddion siop modern<br>Adlenni siop amhriodol<br>Pafin tarmac diweddar<br>Newid nodweddion terfyn traddodiadol a rhoi deunyddiau anhraddodiadol yn eu lle<br>Parcio stryd / meysydd parcio |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| Ymchwil i'r ardaloedd diwydiannol ôl-ganoloesol<br>Newid goleuadau stryd modern<br>Gwella palmentydd tarmac<br>Newid nodweddion pensaernïol a gollwyd<br>Rhestru lleol i ddiogelu adeiladau sydd heb fod rhestredig<br>Gwella ardaloedd lonydd cefn<br>Annog arddangosfeydd blodau a digwyddiadau seiliedig ar hanes | Datblygiad ac estyniadau newydd amhriodol<br>Colli rhagor o fanylion a nodweddion pen-saernïol<br>Colli coed unigol<br>Colli digwyddiadau leol<br>Colli palmentydd coblog traddodiadol |

DRAFT

FFYNIANT BRO | LEVELLING UP
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
UK Government Wales | Llywodraeth y DU Cymru
Tyfu Canolbarth Cymru | Growing Mid Wales



# ABERAERON

## Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mawrth 2024

Paratowyd ar gyfer

**Ceredigion County Council**

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Y Cynllun Rheoli

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

# 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

## 2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. I gyflawni hyn, ceir rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

DRAFT

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLl yn dilyn ymgynghoriad;




*Ffigur 1 Mae waliau cerrig wedi cael eu nodi fel nodweddion terfyn pwysig yn yr ardal gadwraeth*

DRAFT

- A **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLl.

## 2.2 Aberaeron

2.2.1 Ar hyn o bryd nid oes Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le yn Aberaeron.

2.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi bod nodweddion pensaernïol traddodiadol megis drysau a ffenestri wedi cael eu colli dros y tymor hir a bod hyn, yn gynyddol, wedi erydu cymeriad pensaernïol yr adeiladau nad ydynt yn rhestredig o fewn yr ardal gadwraeth.

2.2.3 Mae'r arfarniad hefyd wedi nodi bod triniaethau terfyn pwysig yn yr ardal gadwraeth a bod y rhain yn dechrau cael eu herydu trwy eu newid mewn modd amhriodol.

2.2.4 Mae simneiau wedi cael eu nodi fel nodweddion pwysig o fewn yr ardal gadwraeth ac mae llawer wedi colli eu potiau simnai gwreiddiol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolaeth dros eu colli neu eu newid.

2.2.5 Ceir enghreifftiau o estyniadau preswyl bach a datblygiadau iard gefn o ansawdd gwael ac wedi'u dylunio'n amhriodol. Byddai datblygiadau amhriodol pellach yn niweidio'n gynyddol cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

## 2.3 Argymhelliad Yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sydd mewn grym adeg mabwysiadu

2.3.1 Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Aberaeron. Ni ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae ond yn gymwys i dai annedd a drychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd. Dylid cymhwyso Erthygl 4(2) i'r hawliau datblygu a ganiateir canlynol:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, rendro, neu ail-rendro eiddo)
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi portsh
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth F: Darparu neu newid wyneb caled
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau

DRAFT

- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn




***Ffigur 2 Gall newidiadau amhriodol i nodweddion traddodiadol megis ffenestri a drysau gael effaith negyddol ar yr adeilad unigol a chymeriad a golwg yr ardal gadwraeth ehangach***

DRAFT

2.3.2 Dylid cymhwyso Erthygl 4 yn ogystal â / ar y cyd â'r argymhelliad rhestru lleol a datblygu Polisi Cynllun Lleol perthnasol.

2.3.3 Dylai'r Cyngor geisio cyllid i ddatblygu cynllun grant y gellid ei ddefnyddio i gymell perchnogion i newid nodweddion traddodiadol amhriodol.

## 3. ADOLYGIAD FFINIAU

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd i adolygu eu hardaloedd cadwraeth a llunio a chyhoeddi polisïau a chynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella. Rhan o'r broses adolygu yw ystyried a yw ffin yr ardal gadwraeth yn dal i gael ei hystyried yn briodol a gweld a ddylid ychwanegu neu hepgor unrhyw ardaloedd.

3.1.2 Bydd unrhyw eiddo pellach sy'n cael eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth o ganlyniad i adolygiad fod yn destun mân reolaethau ychwanegol. Nid yw'r rhain yn feichus a gall dynodiad gynnig manteision i berchnogion eiddo, megis mynediad posibl at gynlluniau grant.

## 3.2 Aberaeron

3.2.1 Mae ffin bresennol yr ardal gadwraeth yn cynnwys stent gwreiddiol y dref Sioraidd gynlluniedig a'r rhan fwyaf o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

3.2.2 Nid yw'r ffin wedi cael ei newid ers i'r ardal gael ei dynodi yn 1969.

3.2.3 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd y pedwar fila ar hyd Stryd y Fro sy'n ymddangos ar fap Arolwg Ordnans y 1880au eu nodi fel rhan o'r dref hanesyddol. Mae'r filas hyn wedi cadw nodweddion pensaernïol da o ddiwedd oes Fictoria ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

## 3.3 Argymhelliad

3.3.1 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus cynigir gwneud estyniad bach i'r ffin i gynnwys y pedwar fila ar hyd Stryd y Fro sy'n ymddangos ar fap Arolwg Ordnans y 1880au, sef:

- Rhif 1 Stryd y Fro
- Rhif 2 Stryd y Fro / Awelfa
- Rhif 3 Stryd y Fro
- Rhif 4 Stryd y Fro / Gwesty Bach Hazledeen

# 4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

## 4.1 Cyflwyniad


4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol geisio cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu'n fanwl ar geisiadau cynllunio gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

DRAFFT

***Ffigur 3 Map yn dangos yr estyniad a argymhellir i ffin yr Ardal Gadwraeth***



## 4.2 Aberaeron

4.2.1 Nid oes unrhyw arfarniad a chynllun rheoli ar gyfer Aberaeron ar hyn o bryd i lywio penderfyniadau rheoli datblygu ac asiantau neu berchnogion sydd am wneud cais am ganiatâd cynllunio.

4.2.2 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyngor manwl penodol ynghylch rheoli nodweddion pensaernïol o ddiddordeb arbennig a pha gamau a allai helpu i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

4.2.3 Mae llawer o'r adeiladau pwysig yn y dref yn rhestredig ac felly mae cyfres o ganllawiau Cadw ar reoli newid sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yn adnoddau defnyddiol i'w lledaenu.

## 4.3 Argymhellion

4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberaeron ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal.

4.3.3 Diweddaru'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddosbarthu a darparu hyfforddiant.

4.3.4 Datblygu canllaw dylunio lliw a fyddai'n nodi canllawiau ac egwyddorion cyffredinol ar gyfer lliwiau a mathau priodol o baent i'w defnyddio yn yr ardal gadwraeth, yn enwedig ar gyfer paentio adeiladau, blaenau siopau ac arwyddion.

4.3.5 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio, ffenestri a drysau hanesyddol, microgynhyrchu a chynaliadwyedd, ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Dylai'r canllawiau cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni roi sylw i:

- ***Cynnal a Chadw:*** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd

DRAFT

amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.

- ***Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:*** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.
- ***Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:*** Dylai'r canllawiau gynnwys: Effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-ffitio a pham bod angen dull arbennig ar gyfer adeiladau hŷn? Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o asedau hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.

5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.

5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.

5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisïau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.

DRAFT

5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

## 5.2 Aberaeron

5.2.1 Mae llawer o'r adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth yn adeiladau rhestredig statudol.

5.2.2 Mae’r arfarniad (gweler adran 8.3) wedi nodi, ychydig y tu allan i ganol y dref, megis yn Stryd Tyglyn ac ar hyd Heol y Dŵr, fod ychydig o adeiladau nad ydynt yn rhestredig sydd o'r un dull Sioraidd nodweddiadol ac wedi cadw llawer o'u manylion pensaernïol gwreiddiol.

***Ffigur 4 Adeilad Ffynnon Goch***



5.2.3 Mae'r ychydig adeiladau gwerinol hŷn, nad ydynt yn rhestredig, yn darparu tystiolaeth o'r anheddiad cynharach bach oedd yn yr ardal, ac maent yn bwysig oherwydd eu harwyddocâd tystiolaethol a hanesyddol.

5.2.4 Gellid ystyried cynnwys Ffynnon Goch ar 'restr leol' oherwydd ei phwysigrwydd hanesyddol.

### 5.3 Argymhellion

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn nodi rhai canllawiau a awgrymir ar gyfer creu rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) y gellid eu hystyried i'w cynnwys:

- Unrhyw adeilad sy'n cadw'r mwyafrif o'i nodweddion pensaernïol hanesyddol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y strydlun, adeiladau Sioraidd nad ydynt yn rhestredig yn bennaf o'r dref gynlluniedig wreiddiol, fel y nodir uchod.
- Unrhyw adeilad neu adeiledd sydd â gwerth cymunedol neu bresenoldeb tirnod arbennig
- Unrhyw adeilad sy'n debygol o gadw tystiolaeth archeolegol o gyfnod hanesyddol blaenorol (ystyried adeiladau gwerinol hŷn)
- Unrhyw adeiledd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y parth cyhoeddus ac sydd â gwerth hanesyddol

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.

6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLl am gyngor.

6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.

6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Aberaeron

6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Aberaeron.

DRAFT

6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

### 6.3 Argymhellion

6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.

6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.

6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbrisio.

### 7.2 Aberaeron

7.2.1 Mae Aberaeron yn dref fach lewyrchus ond mae'n dibynnu'n helaeth ar y diwydiant twristiaeth.

7.2.2 Mae digwyddiadau lleol yn boblogaidd gydag ymwelwyr a chymunedau lleol.

7.2.3 Mae rhai digwyddiadau lleol rheolaidd seiliedig ar hanes heb gael eu cynnal yn y blynyddoedd diwethaf.

7.2.4 Cynhaliwyd prosiect gwella Cynllun Tref yn Aberaeron rhwng 1988 a 1998.

DRAFFT

### 7.3 Argymhellion

7.3.1 Yn gyffredinol, mae rhesymau cadarn dros roi'r gorau i ddigwyddiadau rheolaidd. Fodd bynnag, mae/roedd y digwyddiadau seiliedig ar hanes yn ddigwyddiadau deongliadol ac economaidd pwysig i'r dref. Mae'n bosibl ail-ddehongli'r digwyddiadau hyn a'u hailwampio i helpu i gynyddu gwybodaeth y cyhoedd am hanes a datblygiad y dref a'r ardal. Dylai'r Cyngor Sir gefnogi a chynorthwyo'r Cyngor Tref a grwpiau lleol i ddod o hyd i gyllid i gefnogi digwyddiadau yn y dref, yn enwedig y rhai megis marchnad Tachwedd a ffair y Cobiau Cymreig sy'n ddigwyddiadau hanesyddol.

7.3.2 Annog y sefydliadau perthnasol (Cyngor Tref?) i gymryd rhan yng nghystadleuaeth RHS Cymru yn ei Blodau efallai trwy gynorthwyo gyda'r ffi mynediad ac adnoddau eraill? Partneriaid – Clwb Garddio Ceredigion, Cymdeithas Tyfwyr Ceredigion a'r Cylch, Cymdeithas Rhandiroedd Aberaeron?

7.3.3 Annog digwyddiadau y tu allan i'r tymor gwyliau i leihau'r ddibyniaeth ar yr economi twristiaeth.

DRAFT



*Ffigur 5 Mae angen canllawiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu posibl o fewn lleoliad yr ardal gadwraeth*

7.3.4 Cynhyrchu canllawiau dylunio datblygiadau ar gyfer unrhyw safleoedd newydd sy'n cael eu datblygu o fewn yr ardal gadwraeth neu sy'n ei ffinio. Dylai cynlluniau datblygu newydd ystyried y gofynion i gadw a gwella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth a'i lleoliad. Dylid rhoi

ystyriaeth i ddyluniad, graddfa, cynllun, lleoliad, deunyddiau, nodweddion pensaernïol, golygfeydd ac ati.

7.3.5 Mae dros ugain mlynedd bellach ers i gynllun gwella gael ei gynnal yn y dref. Dylai'r Cyngor asesu a fyddai'n bosibl adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn a pharhau i wella'r dref, yn enwedig mewn perthynas â blaenau siopau ac arwyddion ac adeiladau hanesyddol nad ydynt yn rhestredig.

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrddau o amgylch safleoedd datblygu.

8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i gadw'r nodweddion hynny o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at ddynodiad.

### 8.2 Aberaeron

8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth nifer fawr o safleoedd manwerthu annibynnol a rhai safleoedd mwy rhanbarthol neu genedlaethol sy'n fwy o faint, gan gynnwys siopau, bwytai a thafarndai. Mae llawer o'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

8.2.2 Yn anffodus, ychydig o flaenau siopau hanesyddol sydd wedi goroesi ac mae arwyddion a hysbysebion modern wedi cael effaith negyddol ar y rhai sydd wedi goroesi.

### 8.3 Argymhellion

8.3.1 Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau a'u hyrwyddo ar draws ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

8.3.2 Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion.

DRAFT

8.3.3 Ystyried cymryd camau gorfodi ar gyfer arwyddion anawdurdodedig a'u cyfuno â rhaglen grantiau.




*Ffigur 6 Mae blaenau siopau hanesyddol yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal ond mae rhai arwyddion modern yn effeithio'n negyddol ar y nodweddion cadarnhaol hyn*

DRAFT

## 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

### 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw conglfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

### 9.2 Aberaeron

9.2.1 Ychydig iawn o adeiladau gwag neu nas defnyddir sydd yn Aberaeron.

9.2.2 Mae adeiladau masnachol a manwerthu gwag yn cael eu prydlesu'n gyflym os ydynt yn dod yn wag.

9.2.3 Adeiladau sydd heb eu defnyddio ar hyn o bryd sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn aml. Mae'r adeiledd sy'n gorchuddio safle'r hen Ffynnon Goch yn dueddol o ddioddef o graffiti a fandaliaeth.

9.2.4 Mae'r Royal Oak, 30 Ffordd y Gogledd, yn wag ar hyn o bryd ac i'w weld ei fod wedi bod felly ers tua phum mlynedd. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II (Cyf. Cadw: 10075) ac mae iddo gryn werth grŵp gydag adeiladau cyfagos sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod Sioraidd. Mae mewn lleoliad amlwg ar y ffordd fawr trwy Aberaeron ar y gyffordd â Phant y Gof. Mae diffyg

cynnal a chadw yn dechrau ac mae'r ffenestri codi cwarel bach y sonnir amdanynt yn y disgrifiad rhestru wedi cael eu disodli'n amhriodol gyda ffenestri UPVC. Gweler Archwiliad Adeiladau Rhestredig Gwag.

9.2.5 Mae Capel Peniel yn Heol y Dŵr (Cyf. Cadw: 10156) yn wag ar hyn o bryd ac ar werth. Mae'r adeilad i'w weld mewn cyflwr gweddol dda ond mae ganddo tu fewn rhyfeddol a byddai angen ei gadw'n ofalus os caiff ei werthu i'w datblygu.

## 9.3 Argymhellion

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn (gweler: https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-in-risk).

DRAFT






*Ffigurau 7 ac 8 Dylai Adeiladau Rhestredig gwag, megis The Royal Oak a Chapel Peniel, fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor*

9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.

9.3.3 Efallai fod lleoliad yr adeiledd yn Ffynnon Goch yn ffactor yn y duedd ar gyfer fandaliaeth ar y safle hwn. Mae wedi'i leoli i ffwrdd o ganol y dref a heb fod yn rhan o'r parc poblogaidd. Byddai prosiect treftadaeth gymunedol leol iawn, efallai'n cynnwys y gymuned ar y stad gyfagos, yn creu'r cyfle gorau i ddefnyddio'r adeiledd a chadw llygad arno trwy'r flwyddyn. Gellid sefydlu grŵp i ymchwilio ymhellach ac atgyweirio a gofalu am yr adeiledd hwn a darparu dehongliad ychwanegol. Efallai y bydd awgrymiadau cymunedol ar gyfer defnydd newydd posibl.

## 10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cynghorau Tref a fforymau busnes.

10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerwyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.

10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

### 10.2 Aberaeron

10.2.1 Mae'r brif ffordd trwy'r ardal gadwraeth yn amgylchedd prysur gyda llawer iawn o draffig a gall fod tagfeydd ar adegau. Mae hyn yn debygol o waethygu gyda'r terfynau 20mya sydd ar ddod. Mae hyn yn cael dylanwad hollbwysig ar yr amgylchedd ffisegol a chymeriad a golwg yr ardal.

10.2.2 Ar draws yr ardal gadwraeth mae dodrefn stryd gan gynnwys seddi, biniau sbwriel, bolardiau, rheiliau ochr y ffordd, goleuadau stryd ac ati yn gymharol gydlynol, fodd bynnag, mae rhai eitemau wedi dyddio ac eraill wedi'u lleoli'n amhriodol, tra bod eraill wedi cael eu disodli gan ddyluniadau newydd amhriodol.

10.2.3 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o ddatblygiadau mewnlenwi modern, yn enwedig datblygiadau iard gefn ac estyniadau bach, wedi digwydd dros amser, ac mae rhai ohonynt wedi cael effaith negyddol ar y cymeriad hanesyddol ac nid ydynt yn cydweddu ag ansawdd a nodweddion pensaernïol cyffredinol a steil y dref.

DRAFT

10.2.4 Mae gan Aberaeron lawer o enghreifftiau o loriau a phalmentydd hanesyddol deniadol. Fodd bynnag, mae cynlluniau lledu palmentydd diweddar wedi cael eu cyflwyno gan ddefnyddio tarmac anghydnaws. Defnyddir yr ardaloedd hyn yn aml fel caffis a mannau eistedd awyr agored, ac mae eu presenoldeb yn ychwanegu at fywiogrwydd yr ardal. Fodd bynnag, gellid gwella eu heffaith weledol trwy ddefnyddio deunyddiau mwy priodol.

## 10.3 Argymhellion

10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.

10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.

DRAFT



***Ffigur 9 Mae mannau eistedd awyr agored yn ychwanegu at fywiogrwydd yr ardal***

10.3.3 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel '*Streets for All*' Historic England (https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/).

10.3.4 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebau, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.

10.3.5 Ailddatblygu datblygiadau mewnlenwi modern – Defnyddio offer rheoli datblygu i sicrhau dylunio newydd llawn dychymyg o ansawdd da. Wrth ystyried cynigion ar gyfer ailddatblygu safleoedd o'r fath, dylai'r prif bryderon gynnwys yr egwyddor o raddfa gyffredinol unrhyw adeilad newydd, y cysyniad pensaernïol a'r manylion a'i berthynas â'i gyd-destun. Dylai adeilad newydd da fod mewn gwrthgyferbyniad cadarnhaol â'i gymdogion, ac ategu ei gilydd, gan ystyried patrwm, rhythm, manylion a deunyddiau'r ffurf adeiledig gerllaw.

10.3.6 Ystyried creu strategaeth barcio ar gyfer y dref, gan ystyried effaith parcio ar y stryd a nifer y ceir yng nghanol y dref.

10.3.7 Ymgynghori â chydweithwyr o'r Adran Briffyrdd, Llywodraeth Cymru ac eraill i ystyried pa opsiynau sydd ar gael i leihau'r tagfeydd traffig ar hyd yr A487 trwy'r dref.

## 11. COED,TIRWEDD A MANNAU AGORED

### 11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â mannau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

### 11.2 Aberaeron

11.2.1 Mae'r coed, mannau agored a thirwedd sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth wedi eu nodi o fewn yr arfarniad.

11.2.2 Mae'r mannau agored i'w gweld wedi'u cynnal a'u cadw a'u defnyddio'n gymharol dda.

11.2.3 Mae pwysigrwydd arddangosfeydd blodau a chynlluniau plannu i gymeriad a golwg Aberaeron wedi'i nodi yn y arfarniad.

11.2.4 Mae gan Aberaeron nifer o goed stryd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal, yn enwedig yn ardal yr harbwr.

DRAFT

11.2.5 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.

### 11.3 Argymhellion

11.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.

11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd.

11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a/neu gynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

11.3.4 Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl.

11.3.5 Sicrhau bod coed stryd presennol yn cael eu cadw, eu disodli yn ôl yr angen a'u rheoli'n briodol.

## 12. MONITRO AC ADOLYGU

### 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pum i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.

12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

DRAFT

### 12.2 Aberaeron

12.2.1 Ar wahân i ddisgrifiad byr yn nodi pryd y cafodd ei ddynodi nid oes gan Aberaeron arfarniad neu ddogfen reoli fabwysiedig.

12.2.2 Dyma'r adolygiad cyntaf o'r ardal gadwraeth ers iddi gael ei dynodi.

12.2.3 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

### 12.3 Argymhellion

12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

12.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

12.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

12.3.5 Dylai'r Cyngor hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.

DRAFT

## ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU Â BLAENORIAETH

| Gweithredu / Argymhellion<br><br>(Am Eglurhad Llawn gweler y Cynllun Rheoli) | Cyfrifoldeb / Partneriaid | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Aberaeron | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Gweithredu'r estyniad ffin arfaethedig | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Llunio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth.<br><br>Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwr- | CSC – Rheoli Datblygu, Polisi a Threftadaeth | **Uchel – parhaus** |
| Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | **Uchel - parhaus** |
| Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl a rheoli datblygu. Nodi coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu<br><br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu<br><br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Sicrhau, o fewn cyfyngiadau cyllidebol, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt. | CSC | **Uchel – parhaus** |
| Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni. | CSC | **Uchel – parhaus** |

DRAFT

| **Gweithredu / Argymhellion**<br><br>(Am Eglurhad Llawn gweler y Cynllun Rheoli) | **Cyfrifoldeb / Partneriaid** | **Blaenoriaeth** |
|---|---|---|
| Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberaeron. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'i hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau. | CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Phol-<br>isi Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen granti-au blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen. | CSC – Polisi a threftadaeth<br><br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De a Chanol-barth Cymru | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol. | CSC – Treftadaeth a Phol-<br>isi<br><br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai<br><br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Ceisio cyllid ar gyfer cynllun gwella tref neu gynllun tebyg, yn enwedig mewn perthynas â blaenau siopau ac arwydd-ion ac adeiladau hanesyddol nad ydynt yn rhestredig. | CSC – Treftadaeth a Phol-<br>isi<br><br>Cynghorau Tref a Chym-<br>uned | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Priffyrdd ynghylch dylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Pri-<br>ffyrdd<br><br>Ymgynghorwyr | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu prosiect partneriaeth treftadaeth gymunedol gyda grwpiau perthnasol a'r gymuned leol i geisio gwelliannau a diogelwch ar gyfer y ffynnon/Ffynnon Goch. Ystyried def-nyddiau newydd sensitif cynaliadwy ar gyfer yr adeilad. | CSC – Treftadaeth, Adfywio, Ysgolion, Gwasanaethau Amgylcheddol<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned<br><br>Grwpiau cymunedol, y gymuned leol | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Annog a chefnogi'r sefydliadau perthnasol (Cyngor Tref?) i gymryd rhan yng nghystadleuaeth RHS Cymru yn ei Blodau. | CSC – Adfywio<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol, Clwb Garddio Ceredigion, Cymdeith-as Tyfwyr Ceredigion a'r Cylch, Cymdeith- | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio waliau allanol, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ac ati. | CSC – Treftadaeth<br><br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De a Chanol-barth Cymru, Fforwm Treftadaeth Adeil- | **Isel 3-5 mlynedd** |

DRAFT

| **Gweithredu / Argymhellion**<br><br>(Am Eglurhad Llawn gweler y Cynllun Rheoli) | **Cyfrifoldeb / Partneriaid** | **Blaenoriaeth** |
|---|---|---|
| Datblygu canllaw dylunio lliw a fyddai'n nodi canllawiau ac egwyddorion cyffredinol ar gyfer lliwiau a mathau priodol o baent i'w defnyddio o fewn yr ardal gadwraeth. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br><br>Y gymuned leol | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ceisio cyllid i gefnogi digwyddiadau seiliedig ar hanes (e.e. Cobiau Cymreig, ffair a Marchnad Tachwedd) a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u bod yn gynaliadwy. Annog digwyddiadau y tu allan i'r tymor gwyliau er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar | CSC – Adfywio Cyn-ghorau Tref a Chymuned<br><br>Grwpiau cymunedol lleol, ysgolion | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Ymgyng-hori â phartneriaid perthnasol i ystyried pa opsiynau sydd ar gael i leihau'r tagfeydd traffig ar hyd yr A487. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phri-ffyrdd<br><br>Llywodraeth Cymru | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ystyried creu strategaeth barcio ar gyfer y dref. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Pri-ffyrdd<br><br>Y gymuned leol a busnesau Ym-gynghorwyr | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chyn-llun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nes-af. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol. | CSC – Polisi a Threftad-aeth<br><br>Ymgynghorwyr | **Isel 5-10 mlynedd** |

DRAFT

## ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH

### Deddfwriaeth a Chanllanwiau

Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo %20the%20hanesyddol%20amgylchedd%20o%20Cymru.pdf*

Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf*

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%202430320EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Rheoli%20Hanesyddol%20Cymeriad%20in%20Cymru%20%20CY.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Arbennig%20Lleol%20Diddordeb%20in%20Cymru%20CY.pdf

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

DRAFT

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: https://www.gov.wales/technical-advice- note-tan-24-historic-environment

Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (Argraffiad 12. 2024): https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-02/planning-policy-wales-edition-12_1.pdf

## Llyfryddiaeth


'An Old Inhabitant' *(1915) Vanished and Vanishing Cardiganshire* yn Nhrafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1915, Cyfrol 2 Rhif 1

Davies, M. L (2008) *Aberaeron*

Griffiths, J.E. (1970) *The Architecture of Aberaeron* in Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1970 Cyfrol VI Rhif 3

Hinson, C. (1868) *The National Gazetteer of Great Britain and Ireland 1868*

Howell. J.M. (1926) *The Birth and Growth of Aberayron* yn Nhrafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1926, Cyfrol 4

Jenkins, G (1982) *Maritime Heritage. The Ships and Seamen of Southern Ceredigion*

Jenkins, J. G. (2005) *Ceredigion: Interpreting an Ancient County.*

Jones, D. L. (1983) *Aberaeron Before the Harbour Act of 1807* in Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1983 Cyfrol IX Rhif 4

Jones, G (1950) *Aberaeron Landmarks in* Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1950 Cyfrol I Rhif I

Jones, G.M. (1970) *Notes on Aberaeron* in Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1970 Cyfrol VI Rhif 3

Lewis, D. J. (1969) *Aberaeron: The Community and Seafaring, 1800-1900* in Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1969 Cyfrol VI Rhif 2

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales* Lewis, W. J. (1970) *An Illustrated History of Cardiganshire* Maritime Officer, RCAHMW (2014) *Aberaeron Harbour*

Price M. R. C. (2011) *The Lampeter, Aberayron and New Quay Light Railway*

Phythian-Adams, H. (1979) *The Planning of Aberaeron* in Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1979 Cyfrol VIII Rhif 4


DRAFT

### Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd


https://archives.library.wales/

https://archives.wales/

https://archwilio.org.uk/

https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records

https://ceredigionhistory.wales/

https://coflein.gov.uk

http://www.cymdeithasaberaeron.org/sindex.html

https://datamap.gov.wales/

https://discovery.nationalarchives.gov.uk/

https://en.wikipedia.org

https://en-gb.topographic-map.com

https://web.archive.org/web/20120219014543/

https://www.aberaeron.info/en/history

https://www.british-history.ac.uk/

https://www.discoverceredigion.wales/areas-of-ceredigion/

https://www.google.com/maps/


DRAFFT